Healthcare Inspectorate Wales / Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Clinig Deintyddol Smileright, Caerdydd

Dyddiad arolygu: 7 Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 10 Hydref 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-7236-5


© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Cyd-destun .......... 3
3. Crynodeb .......... 4
4. Canfyddiadau .......... 5

    Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

    Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

    Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 13

5. Y Camau Nesaf .......... 15
6. Methodoleg .......... 16

    Atodiad A .......... 18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Glinig Deintyddol Smileright yng Nghaerdydd ar lawr cyntaf Boots, 36 Stryd y Frenhines, Caerdydd ar 7 Gorffennaf 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Clinig Deintyddol Smileright yng Nghaerdydd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Clinig Deintyddol Smileright yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd.

Mae Clinig Deintyddol Smileright yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig.

Mae tîm o staff y practis yn cynnwys pum deintydd, chwe nyrs, un derbynnydd a rheolwr practis.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol preifat.

Mae Clinig Deintyddol Smileright yng Nghaerdydd yn rhan o grŵp bach o bractisau deintyddol sy'n eiddo i Smileright Cyf. a leolir yng Nghymru a Lloegr.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Clinig Deintyddol Smileright, Caerdydd yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw’n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Mae digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol, ac maent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Mae trefniadau ar waith i gynnal sganiau pelydr-x yn ddiogel
- Mae offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella’r canlynol:

- Trefniadau am gofnodi ac ymateb i gwynion
- Trefniadau ar gyfer y defnydd diogel a'r mynediad at gyffuriau ac offer argyfwng
- Diogelwch gwastraff clinigol y tu allan i'r practis
- Polisïau a gweithdrefnau sy'n adlewyrchu'r rheoliadau, safonau a'r canllawiau sy'n berthnasol yng Nghymru yn ddigonol.

# 4. Canfyddiadau

## *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiadur cleifion yn gadarnhaol iawn. Roedd gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom argymell gwneud gwelliannau o ran y trefniadau ar gyfer cwynion cleifion.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cafodd 31 o holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *"Staff cyfeillgar a gwybodus iawn – ac maen nhw'n tawelu eich meddwl drwy gydol y broses."*
>
> *"Eglurwyd y driniaeth yn fanwl ac roedd staff yn gyfeillgar."*
>
> *"Staff cyfeillgar iawn, bob amser yn cymryd yr amser i drafod unrhyw wasanaethau neu weithdrefnau gofynnol mewn digon o fanylder cyn iddyn nhw ddechrau."*

**<u>Gofal gydag urddas</u>**

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin mewn modd urddasol a pharchus. Gwnaethom ganfod bod lle er mwyn i staff gael trafodaethau â chleifion mewn man preifat, i ffwrdd o gleifion eraill, os oes angen. Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis.

**<u>Gofal amserol</u>**

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion.

Fodd bynnag, dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom nad oedd manylion cyswllt mewn argyfwng wedi'u harddangos, ar gyfer cleifion i gael mynediad at ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau. Gwelsom hefyd nad

oedd oriau agor y practis wedi'u harddangos yn weladwy. Gwnaethom drafod hyn ar ddiwrnod yr arolygiad a chadarnhaodd y staff y byddai hyn yn derbyn sylw.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid darparu gwybodaeth eglur i gleifion ynghylch sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau ac mewn argyfwng.***

***Dylid arddangos gwybodaeth ynghylch oriau agor y practis.***

## Gofal unigol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Roedd holiaduron cleifion yn cael eu dosbarthu yn y dderbynfa, a'r canlyniadau'n cael eu trosglwyddo i brif swyddfa Smileright. Dywedodd staff wrthym fod y rhain yn cael eu hadolygu bob tri mis ac roedd unrhyw batrymau neu themâu a oedd yn dod i'r amlwg yn cael eu hasesu a'u trafod gyda staff. Dywedwyd wrthym hefyd bod y practis yn cynllunio defnyddio system holiadur cleifion electronig lle gallai cleifion gwblhau adborth ar ddyfais tabled. Byddai hyn yn galluogi canlyniadau holiadur i gael eu hadolygu'n fwy rheolaidd gan y brif swyddfa.

Gwelsom fod taflenni gwybodaeth yn yr ystafell aros gyda chostau amcangyfrifedig ar gyfer apwyntiadau a nifer fach o driniaethau. Fodd bynnag, nid oedd rhestr brisiau manwl wedi cael ei harddangos.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid arddangos rhestr o brisiau er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu’n llawn ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â'u triniaeth ddeintyddol.***

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn i gleifion preifat leisio pryderon (cwynion). Gwelsom fod poster cwynion wedi'i arddangos y tu ôl i ddesg y dderbynfa ond roedd yn anodd i gleifion ei ddarllen oherwydd ei leoliad a'i faint print bach. Gwelsom fod y polisi cwyno'n cynnwys amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion nad oeddent yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth

Breifat Cymru 2008[1]. Gwnaethom sylwi hefyd bod y sefydliadau y cyfeiriwyd atynt ar y polisi angen eu gwirio gan fod hyn yn cynnwys y Comisiwn Ansawdd Gofal (sy'n berthnasol i gleifion yn Lloegr yn unig) ac nid cleifion AGIC yng Nghymru. Gwelsom hefyd fod yr Ombwdsmon Seneddol wedi cael ei gyfeirio ato sydd ond yn berthnasol i gleifion sy'n derbyn triniaeth y GIG yn Lloegr.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid gwneud y gwelliannau canlynol yn y polisi cwyno a'r poster:***

- ***Dylai'r poster cwynion fod yn weladwy i gleifion (Ni ddylai cleifion orfod gofyn am y wybodaeth hon)***
- ***Mae'n rhaid diweddaru'r amserlenni ar y polisi cwyno er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat***
- ***Mae'n rhaid bod sefydliadau i gleifion gysylltu â nhw i gwyno fod yn berthnasol i gleifion preifat yng Nghymru.***

Gwelsom fod gan y practis system ar gyfer cofnodi cwynion. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd gweithdrefnau'r practis ar gyfer cofnodi cwynion wedi cael eu dilyn ar gyfer cwynion a dderbyniwyd yn ddiweddar, sy'n golygu ei bod yn anodd pennu a oedd themâu cyffredin yn ymddangos. Gwnaethom sylwi hefyd fod un gŵyn wedi cael ei ymateb yn anaddas drwy e-bost. Mae ymateb i gwynion drwy e-bost heb ei amgryptio yn golygu nad yw gwybodaeth am glaf yn cael ei diogelu'n ddigonol. Gwnaethom drafod hyn gyda staff ar ddiwrnod yr arolygiad a gwnaethom amlygu pwysigrwydd hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisi a'r gweithdrefnau cwyno'n cael eu dilyn ar gyfer pob cwyn.***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chleifion yn cael ei diogelu bob amser, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth gwyno.***

---

[1] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## *Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem hefyd yn fodlon bod yr offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol a diogel.**

**Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gweld bod y rhain yn briodol.Gwnaethom argymhellion ar gyfer y practis i wella'r trefniadau ynghylch cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn argyfwng.**

### Gofal diogel

*Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda.

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom fod dau ddiffoddwr tân wedi cael eu symud o'u lleoliad penodedig a gwnaethom gynghori'r practis i roi sylw i hyn.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd y cynhwysydd gwastraff clinigol y tu allan wedi'i gloi. Esboniodd y staff er eu bod wedi cloi'r cynhwysydd eu hunain, roedd defnydd anawdurdodedig o'r cynhwysydd hwn gan fusnes arall.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel.***

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd i ni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith a

oedd yn seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[2] Roedd enghreifftiau’n cynnwys y canlynol:

- Ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd cyfarpar diogelu personol – megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid – ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc penodol i olchi dwylo
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio’r offerynnau mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profi dyddiol. Roedd cofnodion ar gyfer pob cylch sterileiddio'n cael eu cadw yn electronig, a chopi wrth gefn yn cael ei gadw
- Roedd offerynnau wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dyddio.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau diweddar wedi cael ei gwblhau. Dylai'r practis hefyd ystyried defnyddio'r archwiliad rheoli heintiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 sy’n benodol i Gymru a ddatblygwyd gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru.

*Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys ar gael yn y practis, a gwelsom fod y rhain yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewygu). Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oes gan y practis offer dadebru. Dywedwyd wrthym y byddai staff yn defnyddio peiriant gerllaw a leolir yn Boots. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod offer dadebru wedi’i archebu ar ddiwrnod yr arolygiad i'w ddefnyddio yn y practis.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd gan y practis hyfforddiant blynyddol ar waith i helpu sicrhau fod gan bob aelod o staff hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd diweddaredig.

---

[2] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

Gwnaethom sylwi bod un o'r deintyddion, a oedd wedi dechrau'n ddiweddar, heb gwblhau'r hyfforddiant hwn, ond fe'n sicrhawyd y byddai hyn yn derbyn sylw heb oedi.

Er ein bod wedi darganfod bod pob cyffur a chyfarpar dadebru argyfwng o fewn eu dyddiad, canfuom fod angen gwneud y gwelliannau canlynol:

- Ni wnaed gwiriadau wythnosol o gyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn argyfwng
- Nid oedd gwiriadau a berfformiwyd ar gyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu cofnodi'n gyson bob amser
- Dylid ystyried lleoliad y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau eu hygyrchedd a'u diogelwch.
- Roedd angen trefn gliriach o gyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau bod staff yn gallu lleoli'r offer a'r cyffuriau cywir yn hawdd mewn achos o argyfwng. Gwnaethom gynghori'r practis i roi'r siartiau llif gweithdrefnau argyfwng gyda'i gilydd gyda phob cyffur i sicrhau eu bod ar gael yn gyfleus
- Nid oedd unrhyw arwyddion wedi'u harddangos er mwyn nodi lleoliad yr offer cymorth cyntaf a'r offer a ddefnyddir mewn argyfwng. Gwnaethom argymell y dylai’r practis roi sylw i hyn
- Mae angen ailgyflenwi a gwirio deunydd cymorth cyntaf yn rheolaidd, yn enwedig plasterau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Y tu hwnt i'r meysydd yr amlygwyd uchod, mae'n rhaid bod trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn ddiogel i'w defnyddio ac yn hawdd dod o hyd iddynt bob amser, wrth gynnal diogelwch y cyffuriau hyn.***

*Diogelu*

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisïau diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff fynegi unrhyw bryderon. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn

cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys cael eu clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

*Offer radiograffeg*

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod yr holl ddeintyddion a oedd yn cymryd rhan yn y broses o gynnal sganiau radiograffeg wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[3] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Gan fod deintydd newydd ar fin dechrau gwaith yn y practis, gwnaethom atgoffa'r cyfarwyddwr rheoli/hyfforddi i sicrhau bod unrhyw ddeintyddion newydd wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) cyn cymryd sganiau pelydr-x.

**<u>Cofnodion cleifion</u>**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o ddeg o gofnodion cleifion yn y practis. Ar y cyfan, canfuom fod y cofnodion yn briodol ac yn ddigon manwl gyda gwybodaeth ynghylch triniaeth pob claf.

Canfuom dystiolaeth fod cleifion wedi cael eu darparu â digon o wybodaeth am eu triniaeth fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu gofal. Gwelsom fod gan y practis ffurflenni cydsynio gwybodus ar gyfer pob math o driniaethau, ond gwnaethom sylwi nad oedd hyn yn cynnwys triniaethau tynnu cen a sgleinio. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gynnwys hyn.

Roedd gan y practis system ar gyfer gwirio hanesion meddygol, ond canfuom nad yw hyn bob amser yn cael ei wirio bod tro mae claf yn cael ei drin yn unol â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis gael system gadarn ar gyfer gwirio hanesion meddygol cleifion bob tro y byddant yn cael eu trin.***

**<u>Gofal effeithiol</u>**

[3] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu â rhai archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, cadw cofnodion ac archwiliadau radiograffeg. Dywedwyd wrthym fod gan y deintyddion fynediad at gyfarwyddwr clinigol, a oedd yn darparu unrhyw gymorth clinigol yn ôl yr angen, ac yn cynnal arfarniadau rheolaidd. Dywedwyd wrthym hefyd bod y deintyddion yn gwneud archwiliadau adolygu gan gymheiriaid, gan gynnwys cofnodion clinigol.

### *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn.Cyfrifoldeb y rheolwr practis yw rheoli'r practis o ddydd i ddydd, a oedd yn newydd i'w swydd ac a oedd yn cael ei gefnogi gan y cyfarwyddwr rheoli/hyfforddi.Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd i'w gweld yn hapus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, ond gwnaethom argymell i'r rhain gael eu teilwra'n briodol fel eu bod yn berthnasol i Gymru.**

Mae Clinig Deintyddol Smileright yn rhan o grŵp bach o bractisau, gyda phractisau eraill wedi'u lleoli yn Lloegr. Caiff y practis ei gefnogi gan dîm rheoli, gan gynnwys cyfarwyddwr clinigol a chyfarwyddwr rheoli/hyfforddi ymysg eraill. Cyfrifoldeb rheolwr y practis yw rheoli'r practis o ddydd i ddydd a oedd yn newydd i'w swydd ac a oedd yn cael ei gefnogi gan y cyfarwyddwr rheoli/hyfforddi.

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd i'w gweld yn hapus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau. Gwelsom fod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu, a'u bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael hyfforddiant perthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Dywedwyd wrthym fod staff yn derbyn arfarniadau blynyddol a chynhaliwyd y rhain gan y cyfarwyddwr clinigol.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis. Gan fod Clinig Deintyddol Smileright yng Nghaerdydd yn breifat yn unig, gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol deintyddol yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau cyfreithiol o dan y rheoliadau deintyddiaeth breifat.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau ar waith a chanfuom fod yna drefniadau ar gyfer adolygu rheolaidd. Mae polisïau'r practis ar gael i staff ar-lein drwy fewnrwyd mewnol ac yn cael eu diweddaru'n ganolog gan y tîm rheoli. Rhoddwyd sicrwydd inni fod unrhyw newidiadau i bolisïau'n cael eu cyfathrebu i staff. Wrth adolygu'r polisïau, gwnaethom sylwi eu bod wedi cynnwys cyfeiriadau at reoliadau, safonau a sefydliadau sy'n berthnasol i Loegr ac mae angen diweddaru hyn fel eu bod yn berthnasol i Gymru. Gwnaethom sylwi hefyd fod y polisïau yn cyfeirio at 'reolwr cofrestredig' mewn perthynas â phractisau sy'n gofrestredig yn Lloegr, ond nid yw hyn yn berthnasol i bractisau

yng Nghymru. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod y cyfeiriadau hyn yn cynnwys person a enwir er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn briodol a pherthnasol i Gymru, gan gynnwys sicrhau bod rheoliadau, safonau a chanllawiau sy'n benodol i Gymru'n cael eu hadlewyrchu'n ddigonol.***

Gwelsom fod cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal bob deufis. Gwelsom agenda ar gyfer y cyfarfodydd hyn a oedd yn dangos bod amrywiaeth o bynciau'n cael eu trafod. Roedd gan nyrsys y practis hefyd gyfarfodydd tîm anffurfiol yn rheolaidd, ond ni chofnodwyd y rhain. Gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi cyfarfodydd anffurfiol, fel bod trafodaethau yn gallu cael eu hadolygu yn ddiweddarach a'u rhannu ag unrhyw aelodau o staff absennol.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghlinig Deintyddol Smileright yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a adnabuwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis ac sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[4] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[5] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau’r practis
- Archwilio offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny’n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw’r practis deintyddol a’r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy’n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

---

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

## Practis: Clinig Deintyddol Smileright, Caerdydd

## Dyddiad yr Arolygiad: 7 Gorffennaf 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Dylid darparu gwybodaeth glir i gleifion ynglŷn â sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau ac mewn argyfwng.<br>Dylid arddangos gwybodaeth am oriau agor y practis. | Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.3.9 | Arwyddion newydd i'w harchebu'n manylu<br>- Deintydd cywir<br>- Oriau agor<br>- Rhif ffôn y tu allan i oriau (eisoes wedi'i arddangos) | Claire Taylor – Andrew Griffiths | 31ain Awst 2016 |
| 6 | Dylid arddangos rhestr o brisiau preifat er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu'n llawn ynghylch y costau sy'n gysylltiedig **â**'u triniaeth ddeintyddol. | Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.4.1 | Mae rhestrau pris wedi'u hargraffu a'u harddangos | Andrew Griffiths | Cwblhawyd |
| 7 | Dylid gwneud y gwelliannau canlynol | Rheoliadau | Polisi Cwynion wedi'i ddiwygio a'i | Claire Taylor | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | yn y polisi cwyno a'r poster:<br>Dylai'r poster cwynion fod yn weladwy i gleifion (ni ddylai cleifion orfod gofyn am y wybodaeth hon)<br>Dylid diweddaru amserlenni ar y polisi cwynion i gydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat<br>Mae angen sefydliadau i gleifion gysylltu â nhw ynghylch cwynion fod yn berthnasol ar gyfer cleifion preifat yng Nghymru. | Deintyddiaeth Breifat Cymru paragraffau 15 a 16<br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br>5.1.5 | arddangos. Amserlenni cywir yn cael eu manylu yn ogystal â sefydliadau allanol ar gyfer y claf i gysylltu â nhw. | – Dr Mostafa Hassaan | |
| 7 | Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisi a'r gweithdrefnau cwynion yn cael eu dilyn ar gyfer pob cwyn.<br>Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth sy'n berthnasol i gleifion yn cael ei diogelu bob amser, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth gwynion. | Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br>5.1.1, 4.5 | Rhaid i bob cwyn gael ei hanfon at Claire Taylor<br>- Cofrestr cwynion a'r gofrestr digwyddiadau i'w cwblhau'n gywir yn unol â pholisïau'r practis<br>- Hyfforddiant ychwanegol i'w roi i staff perthnasol | Claire Taylor | Cwblhawyd<br>Hyfforddiant i'w ddarparu erbyn 31 Awst |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | Dylai'r practis sicrhau bod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel. | Safonau'r Cyngor Deintyddol | Bydd biniau'n cael eu gwirio'n ddyddiol a'u cloi ddwywaith. Cynghori'r trydydd parti fod hyn at | Claire Taylor-<br>Jordan Smith | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyffredinol 1.5.1<br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01, Adran 5.32 | ddefnydd y practis yn unig | (Arweinydd dadheintio) | |
| 10 | Y tu hwnt i'r meysydd yr amlygwyd uchod, mae'n rhaid bod trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar a ddefnyddir mewn argyfwng yn ddiogel i'w defnyddio ac yn hawdd dod o hyd iddynt bob amser, wrth gynnal diogelwch y cyffuriau hyn. | Gofal Deintyddol Sylfaenol Cyngor Dadebru’r DU<br>Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br>1.5.3 | Mae gwiriadau wythnosol bellach yn cael eu perfformio a'u cofnodi ar bob cyffur ac offer, gan gynnwys ocsigen a deunydd cymorth cyntaf.<br>Algorithm cyffuriau, offer a chyffuriau brys i'w storio mewn bagiau "Zip lock" ar gyfer pob achos o argyfwng meddygol.<br>Cyffuriau wedi cael eu symud i gwpwrdd is a'u labelu'n briodol. | Andrew Griffiths-Jordan Smith | Cwblhawyd |
| 11 | Mae'n rhaid i'r practis gael system gadarn o wirio hanesion meddygol cleifion bob tro y maent yn cael eu | Safonau’r Cyngor Deintyddol | I'w wirio ymhob apwyntiad - Gwybodaeth a gyflëir i ymarferwyr.<br>Archwiliadau chwarterol i'w cynnal | Claire Taylor<br>Dr Mostafa Hassaan | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | trin. | Cyffredinol 4 | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 13 | Mae'n rhaid i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn briodol ac yn berthnasol i Gymru, gan gynnwys sicrhau fod rheoliadau sy'n benodol i Gymru, safonau a chanllawiau'n cael eu hadlewyrchu'n ddigonol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru paragraff 14<br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6<br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Pob polisi i'w diwygio a disodli'r rhai cyfredol yn y ffeiliau ac yn y practis | Claire Taylor<br>Dr Mostafa Hassan | Cwblhawyd |

**Cynrychiolydd y practis:**

| | |
|---|---|
| **Enw (llythrennau bras):** | **Claire Taylor** |
| **Teitl:** | **Cyfarwyddwr Rheolaeth Practis ac Hyfforddiant** |
| **Dyddiad:** | **2il Awst 2016** |